
I S - D D E D D F W R I A E T H

2020 Rhif LIC20 - 63

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Darparu
Gwasanaethau Meddygol
Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod
y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn
ystod y Pandemig COVID-19)
(Gwasanaeth Ychwanegol o dan
Cyfarwyddyd) 2020

Gwnaed

26 Tachwedd 2020

Yn dod i rym

27 Tachwedd 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros Gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 27 Tachwedd 2020 a deuant i ben ar 31 Ionawr 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

Dehongli

2.—(1) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf 2006;

mae i “claf cofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered patient” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004;

ystyr “clwstwr” (“*cluster*”) yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy’n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i gyflenwi gwasanaethau meddygol sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr “contract gwasanaethau meddygol cyffredinol” (“*general medical services contract*”) yw contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol rhwng contractwr GMC a Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol ag adran 42 o’r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef;

ystyr “contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen” (“*engaged GMS contractor*”) yw contractwr GMC sy’n cytuno â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â chytundeb a wneir yn unol â pharagraff 4(1) neu (2);

ystyr “cyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd” (“*Christmas and New Year period*”) yw’r diwrnodau a bennir ym mharagraffau 13 a 14 o’r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd;

ystyr “Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlements*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 45 o’r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i’w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC;

ystyr “Deddf 2006” (“*2006 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “y Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd” (“*Specification for the provision of essential GMS over the Christmas and New Year period*”) yw’r Fanyleb ar gyfer darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros gyfnod y Nadolig a’r

Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19 yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr “gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol” (“*essential general medical services*”) yw'r gwasanaethau y mae rhaid eu darparu o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1);

ystyr “practis arweiniol y clwstwr” (“*cluster lead practice*”) yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w gleifion cofrestredig, ac i gleifion cofrestredig contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw'n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol y clwstwr;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*health care professional*”) yw person sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(2);

ystyr “ymarferydd cyffredinol” (“*GP*”) yw ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(3).

Sefydlu Cynllun i ddiogelu bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol yn cael eu darparu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19

3.—(1) Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 41 o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol) arfer ei swyddogaethau er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu ddiogelu bod gwasanaethau meddygol sylfaenol yn cael eu darparu yn ei ardal.

(2) Fel rhan o'i waith o gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 41 o Ddeddf 2006, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu (os nad yw eisoes wedi gwneud hynny), gweithredu ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio cynllun i ddiogelu bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol yn cael eu darparu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y pandemig COVID-19.

(3) Diben sylfaenol y cynllun i ddiogelu bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol yn

(1) O.S. 2004/478 (Cy. 48).

(2) 2002 p. 17.

(3) O.S. 2004/1020 (Cy. 117).

cael eu darparu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19 yw—

- (a) sicrhau bod gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol yn cael eu darparu ar gyfer cleifion sy'n gofyn am gyngor, ymgynghoriad neu wasanaeth hanfodol arall yn ystod oriau penodedig cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a
- (b) helpu i wasgaru'r galw gan gleifion y bydd practisau cyffredinol yn ei wynebu yn ystod y diwrnodau ar ôl y Nadolig a lliniaru'r galw anochel ar adrannau brys a gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol y Tu Allan i Orlau ar adeg pan fydd ysbytai yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti wrth iddynt ymdrin â'r pandemig COVID-19.

Cynllun i ddiogelu bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol yn cael eu darparu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19

4.—(1) Fel rhan o'i Gynllun i ddiogelu bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol yn cael eu darparu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y pandemig COVID-19, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwymo i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd â—

- (a) pob contractwr GMC, mewn perthynas â chleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw, ac yna
- (b) naill ai—
 - (i) un neu ragor o bractisau arweiniol y clwstwr, mewn perthynas â chleifion cofrestredig practis arweiniol y clwstwr, a chleifion cofrestredig y contractwyr GMC hynny, os oes rhai, yn ei glwstwr nad ydynt wedi cytuno, o fewn unrhyw gyfnod amser sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w cleifion cofrestredig yn unol â pharagraff 4(1)(a) uchod, neu
 - (ii) contractwr GMC sydd wedi cytuno i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff (a) mewn perthynas â chleifion cofrestredig contractwr GMC arall neu grŵp o gontractwyr GMC, yn ddarostyngedig i gytundeb y contractwr GMC arall neu grŵp o gontractwyr GMC.

(2) Pan na fydd cleifion contractwr GMC yn cael y gwasanaethau a amlinellir yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd gan y contractwr GMC, neu gan bractis arweiniol y clwstwr, y maent yn gleifion cofrestredig mewn perthynas ag ef, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu i gleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw mor agos i fangre practis y contractwr GMC hwnnw ag sy'n rhesymol ymarferol, a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflenwi'r gwasanaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'r cleifion hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n credu ei bod yn briodol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drwy ddarparu'r gwasanaethau ei hunan neu drefnu i unrhyw gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gyflenwi'r gwasanaethau hynny).

(3) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1)(b), rhaid i bob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gydweithredu(1) â'r contractwyr GMC eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen a phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniant ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i gleifion cofrestredig y contractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen ar draws y clwstwr. Pan fo dim ond un contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, sef practis arweiniol y clwstwr, ef fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw. Pan na fo unrhyw bractis arweiniol clwstwr, a bod pob un o'r contractwyr GMC yn y clwstwr yn gontractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen, hwy i gyd fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw.

(4) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol (neu ran o flwyddyn) y maent yn ymwneud â hi, gynnwys—

(a) gofyniad bod y contractwr GMC—

(i) yn darllen ac yn ystyried y Cyfarwyddydau hyn wrth gydymffurfio â'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd sydd, gyda'i gilydd, yn darparu'r gofynion manwl ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd;

(1) Gweler paragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/478 Cy. 48).

- (ii) yn darparu'r gwasanaethau a amlinellir yn y Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac yn unol â'r plan a bennir ym mharagraff (3) uchod;
 - (iii) yn darparu data, yn ddarostyngedig i is-baragraff (iv), i bractis arweiniol y clwstwr mewn clwstwr (pan fo'n gymwys), i'w Fwrdd Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru, pan fydd yn ofynnol, i roi gwybod am y diwrnodau a'r amseroedd y bydd y contractwr GMC yn cynnig y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd;
 - (iv) yn sicrhau codio cyson ar gyfer cipio data a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ynghylch llywodraethu gwybodaeth;
 - (v) yn sicrhau bod gan bob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymgymryd â'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd y sgiliau, yr hyfforddiant, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaethau;
 - (vi) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymgymryd â'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd wedi ei indemnio neu ei yswirio'n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy'n codi o'r gwaith sy'n cael ei wneud;
 - (vii) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (3), a
- (b) trefniadau talu am gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt ddarparu iddo allu hawlio—
- (i) taliad o £275 am bob diwrnod llawn y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 26(1)(a) o'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd;
 - (ii) taliad o £150 am bob hanner diwrnod y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 26(1)(b) o'r Fanyleb ar gyfer darparu

GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd;

- (iii) taliad o £165 am bob diwrnod llawn y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 26(2)(a) o'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd;
- (iv) taliad o £85 am bob hanner diwrnod y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 26(2)(b) o'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd;
- (v) taliad o £165 am bob diwrnod llawn y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 27(a) o'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd; a
- (vi) taliad o £85 am bob hanner diwrnod y mae'r contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff 27(b) o'r Fanyleb ar gyfer darparu GMC hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd,

ac ar ôl i unrhyw daliad o'r fath fod yn ddyledus, a chael ei awdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol, rhaid i'r taliadau hynny gael eu talu ar y dyddiad y mae taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract gwasanaethau meddygol cyffredinol y contractwr GMC fel bod y trefniadau a wneir yn unol â pharagraff (1) yn rhan o gontract y contractwr GMC a bod gofynion y trefniadau yn amodau o'r contract.

(6) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â Rhan 7 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1).

(7) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant yn unol â pharagraff 4(2), rhaid

(1) O.S. 2004/488 (Cy. 48).

i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod paragraffau 4(4)
a 4(5) yn gymwys i unrhyw drefniadau fel y byddent
i gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy
Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan
awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

Dyddiad: 26 Tachwedd 2020

YR ATODLEN

Manyleb ar gyfer darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Hanfodol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn ystod y Pandemig COVID-19

Cyflwyniad

1. Mae'r fanyleb hon yn nodi gofynion y Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd ar wyliau banc a phenwythnosau cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a bennir ym mharagraffau 13 a 14, er mwyn ategu'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) hanfodol a ddarperir gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) yn ystod y pandemig COVID-19.

2. Rhaid i BILlau drwy Gyfarwyddyd gynnig y cyfle i bractisau gymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn ar 28 Rhagfyr 2020. Yn ychwanegol, mae BILlau wedi eu cyfarwyddo i ystyried eu trefniadau ar gyfer gofal sylfaenol brys a chânt gynnig y cyfle i bractisau gymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn ar 26 a 27 Rhagfyr 2020 a 1, 2 a 3 Ionawr 2021.

3. Diben y Gwasanaeth Ychwanegol hwn yw ymdrin â darparu GMC hanfodol i gleifion sy'n gofyn am gyngor, ymgynghoriad neu wasanaeth hanfodol arall, yn ystod oriau penodol y dydd ar y dyddiadau a bennir ym mharagraff 2 dros gyfnodau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn helpu i wasgaru'r galw gan gleifion y bydd practisau cyffredinol yn ei wynebu yn ystod y diwrnodau yn dilyn y Nadolig ac yn lliniaru'r galw anochel ar adrannau brys a gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol y Tu Allan i Orlau ar adeg pan fydd ysbytai yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti wrth iddynt ymdrin â'r pandemig COVID-19.

4. Gall cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn fod drwy bractis ymarferydd cyffredinol y claf ei hun, neu drwy un practis ymarferydd cyffredinol ar ran practis arall neu grŵp o bractisau, pa un ai fel contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen neu bractis arweiniol clwstwr.

Cymhwysra

5. Mae pob contractwr GMC sy'n cymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn ac sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y fanyleb hon yn gymwys i gael taliad.

6. Bydd unrhyw glaf sy'n gymwys i gael GMC hanfodol, gan gynnwys preswylwyr dros dro, yn gallu cael gafael ar gontractwr GMC pan fydd y Gwasanaeth Ychwanegol yn cael ei weithredu.

7. Mae'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn cefnogi contractwyr GMC i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol ond nid gwasanaethau ychwanegol.

8. Rhaid i gontractwyr GMC fabwysiadau model brysbennu cyflawn yn unol â chyngor cyfredol Llywodraeth Cymru ar yr adeg y darperir y Gwasanaeth Ychwanegol hwn, fel nad yw ymgynghoriadau wyneb yn wyneb (mewn meddygfa neu yn ystod ymweliad â'r cartref) ond yn digwydd ar ôl ymgynghoriad cychwynnol dros y ffôn, drwy fideo neu ar-lein.

9. Rhaid i gontractwyr GMC sicrhau bod meddygon yn anrhydeddu unrhyw gytundebau neu ymrwymadau sydd eisoes yn bodoli i'r gwasanaeth ymarferwyr cyffredinol y Tu Allan i Orlau. Ni chaniateir cymryd ymlaen unrhyw feddyg i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn os bydd hynny'n niweidio gweithrediad y gwasanaeth ymarferwyr cyffredinol y Tu Allan i Orlau a chapasiti'r gwasanaeth hwnnw.

10. Rhaid i gontractwr GMC hysbysu'r BILl ei fod yn dymuno cymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn a'r diwrnodau y bydd yn cynnig y gwasanaeth.

11. Rhaid i gontractwr GMC sy'n bwriadu cyflenwi gwasanaethau ar ran practis arall neu grŵp o bractisau (pa un ai fel contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen neu bractis arweiniol y clwstwr) gyflwyno planiau sy'n dderbyniol i'r BILl, i gynnwys manylion y staff clinigol a fydd ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth a gwnmpesir a'r trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer darparu gofal i gleifion nad ydynt wedi eu cofrestru â'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen neu bractis arweiniol y clwstwr.

Cyflenwi

12. Os yw contractwr GMC yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn unol â pharagraff 15(a)—

- (a) rhaid i'r gwasanaethau gael eu darparu o safleoedd prif feddygfeydd, a
- (b) os yw'r contractwr GMC fel arfer yn darparu gwasanaethau clinigol ymarferydd cyffredinol mewn meddygfeydd cangen 5 niwrnod yr wythnos, caiff y contractwr GMC ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o safle meddygfa cangen, ond dim ond os yw safle'r brif feddygfa hefyd yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol.

13. Rhaid i'r BILl gynnig y cyfle i'r contractwyr GMC ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol ar

Ŵyl Banc Dydd Llun, 28 Rhagfyr 2020, rhwng yr oriau 08:00 a 18:30 (10.5 awr).

14. Caiff y BILl gynnig y cyfle i gontractwyr GMC ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol ar—

- (a) Gŵyl San Steffan, Dydd Sadwrn 26 Rhagfyr 2020, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr),
- (b) Dydd Sul, 27 Rhagfyr 2020, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr),
- (c) Dydd Calan, Dydd Gwener 1 Ionawr 2021, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr),
- (d) Dydd Sadwrn, 2 Ionawr 2021, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr), ac
- (e) Dydd Sul, 3 Ionawr 2021, rhwng yr oriau 8:00 a 13:15 (5.25 awr).

15. Caiff y contractwr GMC gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn naill ai drwy—

- (a) agor prif feddygfa'r practis gyda brysbennu clinigol gan ymarferydd cyffredinol, ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy fideo, ymgynghoriad wyneb yn wyneb â chlaf fel y bo'n glinigol angenrheidiol a chydag aelodau priodol o staff y practis, gan gynnwys derbynnydd, neu
- (b) brysbennu clinigol gan ymarferydd cyffredinol o bell, ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy fideo a, phan fo'n briodol, ymgynghoriad wyneb yn wyneb â chlaf fel y bo'n glinigol angenrheidiol, y caniateir iddo gael ei drefnu ar gyfer cyfnod yn ddiweddarach yn y diwrnod ar safle mangre practis.

16. Rhaid i gontractwr GMC sy'n cytuno i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol hysbysu'r BILl pa opsiwn o dan baragraff 15 y bydd y contractwr GMC hwnnw yn ei ddefnyddio i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol, y lefelau staffio y bydd yn eu gweithredu i ddarparu'r gwasanaeth a sut mae'n bwriadu gwneud cleifion yn ymwybodol o'r gwasanaeth.

17. Rhaid i'r contractwr GMC gymryd galwadau yn uniongyrchol oddi wrth ei gleifion cofrestredig, a phan fo'n gymwys, oddi wrth gleifion cofrestredig contractwr GMC arall, grŵp o gontractwyr GMC neu gontractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen ar draws clwstwr, a gwaherddir y contractwr GMC rhag dargyfeirio galwadau i Alw Iechyd Cymru 111 yn ystod yr oriau y mae'r Gwasanaeth Ychwanegol yn cael ei weithredu.

18. Rhaid i'r contractwr dderbyn galwadau oddi wrth gleifion cofrestredig, a phan fo'n gymwys, oddi wrth gleifion cofrestredig contractwr GMC arall, grŵp o gontractwyr GMC neu gontractwyr GMC sydd wedi

eu cymryd ymlaen ar draws clwstwr sy'n galw yn amhriodol y gwasanaeth y Tu Allan i Orlau neu Alw Iechyd Cymru 111 yn ystod oriau gweithredu'r Gwasanaeth Ychwanegol a rhaid iddo ymwneud â gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol y Tu Allan i Orlau a Galw Iechyd Cymru 111 cyn ac wrth gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol.

19. Rhaid i'r contractwr GMC ddefnyddio model brysbennu cyflawn i sgrinio pob cais am ymgynghoriad wyneb yn wyneb.

20. Rhaid i'r contractwr GMC sy'n cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol fod yn gallu cael galwadau oddi wrth—

- (a) parafeddygon sydd wedi mynd at gleifion ond nad ydynt wedi eu cludo ac y maent yn credu y mae angen asesiad ymarferydd cyffredinol arnynt,
- (b) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru/999 i drafod cleifion y bernir eu bod yn gategori C ac yn addas ar gyfer brysbennu/gofal ymarferydd cyffredinol,
- (c) fferyllfeydd cymunedol sy'n ceisio cyngor meddygol ynghylch cleifion cofrestredig neu, pan fo'n gymwys, gleifion cofrestredig y contractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen ar draws y clwstwr,
- (d) labordai ysbytai â chanlyniadau labordy brys y mae angen rhoi sylw iddynt,
- (e) cartrefi nyrsio ar gyfer cleifion y mae angen gofal arnynt na all aros tan fod meddygfa'r ymarferydd cyffredinol ar agor yn ôl yr arfer, ac
- (f) timau nyrsio cymunedol, er enghraifft ar gyfer cyngor gofal lliniarol.

21. Pan fo'r contractwr GMC yn defnyddio tîm gofal sylfaenol amlddisgyblaethol, rhaid i lefelau staffio priodol fod yn eu lle i sicrhau y gall ymgynghoriadau wyneb yn wyneb fod gydag unrhyw broffesiynolyn priodol, nid o reidrwydd gydag ymarferydd cyffredinol.

22. Mae contractwr GMC sy'n cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn unol â pharagraff 15(a) yn gyfrifol am sicrhau staffio priodol i ddiwallu anghenion cleifion a rhaid cael o leiaf un ymarferydd cyffredinol yn y fangre drwy'r amser yn ystod yr oriau pan fydd mangre'r feddygfa ar agor ac yn darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn, oni bai ei bod yn angenrheidiol i'r holl ymarferwyr cyffredinol yn y fangre ymweld â chartrefi cleifion sydd eisoes wedi eu brysbennu.

23. Caiff y contractwr GMC ddefnyddio tîm amlddisgyblaethol i gefnogi unrhyw ymarferydd cyffredinol yn y fangre. Caiff unrhyw aelod o'r tîm cymorth amlddisgyblaethol weithio o bell a darparu ymgynghoriadau dros y ffôn neu drwy fideo.

24. Ni chaiff y contractwr GMC gymryd ymlaen ymarferwyr cyffredinol locwm i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn benodol.

25. Rhaid i'r contractwr GMC ystyried sut y byddai modd darparu hebryngwr pe bai'n ofynnol cael un mewn ymgynghoriad.

Taliad

26.—(1) Bydd contractwr GMC sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn unol â pharagraff 15(a) yn gymwys i gael y taliadau a ganlyn—

- (a) £275 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis am y diwrnod llawn a bennir ym mharagraff 13, a
- (b) £150 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis am bob hanner diwrnod a bennir ym mharagraff 14.

(2) Bydd contractwr GMC sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn unol â pharagraff 15(b) yn gymwys i gael y taliadau a ganlyn—

- (a) £165 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis am y diwrnod llawn a bennir ym mharagraff 13, a
- (b) £85 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis am bob hanner diwrnod a bennir ym mharagraff 14.

27. Bydd contractwr GMC y mae ei blan a gyflwynwyd yn unol â pharagraff 11 wedi ei dderbyn gan y BILl ac sy'n darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn yn unol â pharagraff 15(a) neu (b) i gleifion nad ydynt wedi eu cofrestru â'r contractwr GMC hwnnw ac nad ydynt yn cael gafael ar wasanaethau fel preswilydd dros dro, yn gymwys ar gyfer y taliadau a ganlyn—

- (a) £165 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis arall neu grŵp o bractisau sydd wedi ei gynnwys yn y plan a dderbyniwyd gan y BILl, am y diwrnod llawn a bennir ym mharagraff 13, a
- (b) £85 am bob 1000 o gleifion ar restr cleifion cofrestredig y practis arall neu grŵp o bractisau sydd wedi ei gynnwys yn y plan a dderbyniwyd gan y BILl, am bob hanner diwrnod a bennir ym mharagraff 14.